**Y PWYLLGOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A CHWARAEON**

**GWASANAETHAU AWTISTIAETH**

**TYSTIOLAETH GAN Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Diben**

Diben y papur hwn yw diweddaru'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar wasanaethau awtistiaeth.

**Cyflwyniad**

Ar 25 Hydref 2018, mynychais sesiwn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i gyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â Bil Awtistiaeth (Cymru). Yn ystod y sesiwn hon fe gytunais i ddychwelyd ymhen blwyddyn i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar wasanaethau awtistiaeth. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn darparu diweddariad ar ddatblygiadau ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar y meysydd a ddeilliodd o argymhellion *Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Bil Awtistiaeth (Cymru) (Rhagfyr 2018)*.

**Cefndir**

Yn dilyn cyhoeddi'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (2016), mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol (IAS) wedi'i gyflwyno trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Darparwyd £13 miliwn trwy'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi hyn, ac mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ym mis Gorffennaf 2019 cyhoeddwyd yr ail adroddiad blynyddol ar y gwaith o gyflwyno ein strategaeth awtistiaeth[1]. Y tri maes blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth yw asesu a diagnosis; mynd i'r afael ag anghenion cymorth; a chodi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant.

**Diweddariad**

*Gwasanaeth niwroddatblygiad*

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £2 filiwn bob blwyddyn i sefydlu a darparu gwasanaethau niwroddatblygiadol penodedig ledled Cymru. Fel arfer, bydd diagnosis o awtistiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei wneud gan y timau hyn. Sefydlwyd y gwasanaeth o dan y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Sefydlwyd y gwasanaeth i wella gwasanaethau asesu ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed a allai fod â chyflwr niwroddatblygiadol. Sefydlwyd gwasanaethau arbenigol am y tro

[1] Llywodraeth Cymru (2019) Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth: Adroddiad Blynyddol 2018-19 https://llyw.cymru/anhwylder-y-sbectrwm-awtistiaeth-adroddiad-blynyddol-2018-i-2019?_ga=2.154187711.687291171.1571302676-881363834.1547048528

cyntaf yn 2016 ac maent ar gael ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Rydym wedi cyflwyno targed amser aros o 26 wythnos ar gyfer byrddau iechyd ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r byrddau iechyd a Gwasanaeth Gwybodeg Cymru i sicrhau bod y data yn gywir. Unwaith y caf i sicrwydd am ddilysrwydd y data, bydd yn cael ei gyhoeddi ar Stats Cymru.

Bu'r galw am y gwasanaeth yn uwch o lawer na'r hyn a ragwelwyd gan y byrddau iechyd. Felly, er mwyn deall galw a chapasiti'r gwasanaeth yn well, rydym yn bwriadu comisiynu ymarferiad cwmpasu, a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer yr adolygiad hwnnw wedi'i nodi'n ddiweddarach yn y papur hwn.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cytuno, yn egwyddorol, i ymestyn ein rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Byddaf yn disgwyl fod y rhaglen hon dan arweiniad y GIG yn parhau i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau er mwyn sbarduno gwelliannau, a gwella ansawdd a chanlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, sy'n cynnwys gwasanaethau niwroddatblygiadol, ledled Cymru.

*Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol*

Erbyn hyn, mae'r IAS wedi'i gyflwyno'n llawn ledled Cymru. Mae timau IAS yn gweithredu yng Nghaerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent, Powys, Gogledd Cymru, Bae'r Gorllewin a Gorllewin Cymru. Bu'r IAS yn cydweithio ar lefel leol a chenedlaethol, gan ddatblygu a chynnal cysylltiadau agos ag asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth, yn enwedig gwasanaethau anableddau dysgu, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol sy'n elfen hanfodol o'r gwasanaeth cyffredinol sy'n cael ei gynnig.

Mae rhai enghreifftiau diweddar o waith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol yn cynnwys cyflwyno rhaglen addysg i gleifion sydd wedi'i haddasu'n arbennig ac yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifanc yng Ngwent. Yng Nghaerdydd, mae rhaglen gymorth a gwybodaeth ôl-ddiagnostig ar gyfer oedolion wedi'i llunio gan yr IAS a 21 High Street, elusen awtistiaeth yng Nghaerdydd. Mae'r ddwy raglen wrthi'n cael eu cyflwyno ledled Cymru.

Yn ogystal, mae pob IAS a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gefnogi a gweithio gyda gofalwyr a rhieni awtistig. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r ymholiadau gan rieni awtistig gan eu bod wedi dod i'r casgliad nad yw cyrsiau a chymorth rhianta traddodiadol yn diwallu anghenion eu teulu. Datblygir adnoddau newydd mewn partneriaeth â rhieni, ac fe'u rhennir gyda'r sectorau gofal plant a chymorth i deuluoedd ehangach.

Ers mis Ebrill eleni, rydym wedi bod yn treialu model casglu data sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i fesur effaith y gwasanaethau ar fywydau pobl awtistig sy'n cael eu cefnogi. Yn ogystal â hyn, mae pob IAS yn defnyddio'r dull sêr ar gyfer canlyniadau gyda phob cyfranogwr i gytuno ar nodau a mesur y pellter a deithiwyd.

*Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol*

Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn parhau i fod â rôl ganolog yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth. Mae

cynllun gwaith blynyddol ar gyfer 2019/20 wedi'i gytuno a'i gyhoeddi ar ei wefan[2]. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, ynghyd â chynhyrchu amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer pobl awtistig, eu teuluoedd a gofalwyr mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid sydd ar gael ar y wefan (www.asdinfowales.co.uk). Cyhoeddodd y Tîm ei ail adroddiad blynyddol ym mis Mehefin eleni[3].

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn mae'r Tîm wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Cynnydd o 62% yn nifer y bobl sy'n defnyddio ei wefan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 10,575 o ddefnyddwyr y mis ar gyfartaledd – cynnydd o dros 3,500 o ddefnyddwyr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Awtistiaeth Genedlaethol Cymru, "Hyrwyddo Llesiant Awtistig", ar 3 Ebrill yn Stadiwm Liberty, Abertawe, gyda'r nod o wella llesiant oedolion awtistig nad ydynt o reidrwydd mewn cysylltiad rheolaidd â gwasanaethau cyhoeddus neu drydydd sector, ond y byddai digwyddiad am lesiant a gwella eu gallu i ymdopi â bywyd o ddydd i ddydd yn fuddiol a chadarnhaol iddynt. Bu'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, ac roedd y gwaith trefnu yn enghraifft dda o gydweithio.
- Mae'r Tîm wedi cwblhau cynllun Dysgu Seiliedig ar Waith a gyd-gynhyrchwyd gyda dysgwyr awtistig, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Arweinwyr ASD ac Associated Community Training Limited (ACT). Nod y rhaglen dysgu seiliedig ar waith yw rhoi gwybodaeth ac arweiniad i sefydliadau ar fod yn ymwybodol o awtistiaeth a deall sut i gefnogi eu dysgwyr awtistig yn effeithiol. Lansiwyd y rhaglen hon gan y Gweinidog Addysg ar 24 Medi 2019.

*Gwerthusiad Annibynnol*

Ym mis Ebrill, ymrwymais i gyhoeddi'r gwerthusiad annibynnol o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig[4]; nododd yr adroddiad fod croeso mawr i'r IAS, a gwnaeth argymhellion ynghylch meysydd y mae angen canolbwyntio mwy arnynt. Yn 2018, comisiynais hefyd estyniad i'r gwerthusiad i ddarparu darlun cliriach o wasanaethau presennol ac i sicrhau bod gennym y wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud y penderfyniadau iawn ynghylch gwasanaethau i'r dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso *Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer Alinio a Datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth a Niwroddatblygiadol*[5], ac mae'n rhoi syniad gwell i ni o allu ein gwasanaethau i ymateb i'r galw am gymorth, sy'n cynyddu o hyd.

---

2 Cynllun Gwaith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol 2019-20
https://www.asdinfowales.co.uk/resource/National-Autism-Team-Work-Plan-2019-20_cym.pdf

3 Adroddiad Blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol 2018/19
https://www.asdinfowales.co.uk/resource/National-Autism-Team_Annual-Report_2018-19_cym.pdf

4 Llywodraeth Cymru (Ebrill 2019) Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: adroddiad terfynol
https://llyw.cymru/gwerthusiad-gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-cynllun-gweithredu-strategol-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig-terfynol

5 Llywodraeth Cymru (2019) Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer Alinio a Datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth a Niwroddatblygiadol https://llyw.cymru/gwasanaethau-awtistiaeth-niwroddatblygiadol

Rydym wedi derbyn yr argymhellion a wnaed yn y ddau adolygiad annibynnol o wasanaethau awtistiaeth, ac yn gweithredu yn eu cylch.

*Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Awtistiaeth*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Cod Ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y GIG 2006. Agorodd ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer y Cod ar 30 Tachwedd 2018, a daeth i ben ar 1 Mawrth 2019. Cynhaliwyd pedwar prif ddigwyddiad i randdeiliaid ym mis Chwefror yn Llandrindod, Abertawe, Llandudno a Chaerdydd. Cyhoeddwyd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf[6]. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi'r cynigion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn seiliedig ar awgrymiadau o faterion pellach y dylid eu hystyried neu geisiadau am fwy o eglurder mewn rhai meysydd. Roedd enghreifftiau o'r materion allweddol i ymchwilio ymhellach iddynt a nodwyd yn yr ymatebion yn cynnwys manylion llwybrau a rôl yr hyrwyddwr awtistiaeth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad cyntaf hwn, rydym yn parhau i wrando ar bobl awtistig trwy ymgysylltu'n uniongyrchol mewn digwyddiadau a chyfarfodydd ledled Cymru. Fe wnaethom gynnal ein cylch cyntaf o grwpiau technegol i gynghori ar y cod ym mis Gorffennaf eleni, a byddant yn cyfarfod eto ym mis Tachwedd. Rydym yn trefnu digwyddiadau rhanddeiliaid pellach yn y Gorllewin a'r Gogledd ar gyfer mis Tachwedd. Byddwn hefyd yn mynychu digwyddiadau megis ADFest ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac yn cyfarfod â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chynrychiolwyr o sawl un o'r Colegau Brenhinol. Byddwn yn cyfarfod ag arweinwyr gweithluoedd awdurdodau lleol hefyd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd i wrando ar safbwyntiau grwpiau rhanddeiliaid lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar cyfarfu fy swyddogion â grŵp o oedolion awtistig ym Mhowys i drafod eu barn a'u profiadau er mwyn helpu i lywio datblygiad y Cod. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag oedolion awtistig ar draws y rhanbarthau.

Rydym yn gwrando ar yr adborth ac yn gweithredu. Er enghraifft, mewn ymateb i geisiadau am ddull clir a chynhwysfawr sydd hefyd yn hygyrch, byddwn yn cyhoeddi cod ymarfer drafft cryno, gyda dogfen ganllawiau ar wahân i esbonio beth sy'n ddisgwyliedig, ac rydym yn ehangu cwmpas yr asesiad effaith rheoleiddiol i sicrhau bod modd cyflenwi'r cod heb gael effaith negyddol ar wasanaethau eraill.

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar wasanaethau awtistiaeth ar 23 Medi[7], ymrwymais i anfon copi o'r cod drafft i'r Pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon er mwyn cael adborth. Mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y Cod Ymarfer,

---

[6] Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar Gynigion ar gyfer y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth
https://llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ddarparu-gwasanaethau-awtistiaeth

[7] Datganiad Ysgrifenedig – Gwella Gwasanaethau Awtistiaeth
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwella-gwasanaethau-awtistiaeth

pan gaiff ei gyhoeddi, yn gosod cyfrifoldebau clir ar sefydliadau statudol, ond ei fod yn cael ei ddatblygu hefyd mewn ffordd sy'n caniatáu iddo gael ei roi ar waith yn ymarferol. Ein bwriad ar hyn o bryd yw y bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cod, y canllawiau cysylltiedig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu cyhoeddi cyn Pasg 2020.

*Adolygiad o Alw a Chapasiti*

Fel rhan o ddatblygiad y Cod Ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth, rydym yn cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol cynhwysfawr i sicrhau bod gofynion y cod yn ymarferol a bod modd eu cyflawni. I ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i lywio'r asesiad hwn, rydym yn cynnal adolygiad o alw a chapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol plant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) a chymorth awtistiaeth ehangach. Bydd y cyfnod meincnodi cyntaf yn darparu darlun cywir o sut mae'r gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r IAS yn gweithredu ac yn rheoli'r galw cynyddol am wasanaethau.

Bydd ail gam yr adolygiad hwn yn ystyried gwasanaethau awtistiaeth ehangach ac yn ystyried barn pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr. Bydd yn canolbwyntio hefyd ar rwystrau i'r gweithlu ac yn ceisio mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth. Bydd yr adolygiad yn ystyried hefyd yr argymhellion perthnasol a wnaed yn yr adroddiad gwerthuso annibynnol cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019 a'r Adolygiad Cwmpasu a gyhoeddwyd ym mis Medi.

Mae llawer o'r materion sy'n cael sylw yn yr adroddiadau hyn yn gyffredin ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau plant. Mae trafodaethau â'n partneriaid, gan gynnwys pobl a gwasanaethau awtistig, yn awgrymu nad oes ateb syml i fynd i'r afael â'r galw cynyddol. Nid yw mor syml â chynyddu'r cyllid i recriwtio mwy o staff gan fod prinder arbenigwyr cymwys. Ni fydd gosod dyletswyddau cyfreithiol a thargedau mwy caeth yn ddigon, gan y bydd hyn yn rhoi mwy fyth o bwysau ar wasanaethau sydd eisoes yn cael trafferthion i ganolbwyntio ar gyflawni targedau ar draul cymorth gwirioneddol angenrheidiol. Rydym yn gwybod bod ffocws ar leihau amseroedd aros yn cyflawni canlyniadau, ond mae yna gost i hyn gan nad oes gan glinigwyr mewn llawer o ardaloedd y capasiti i ddarparu cymorth ôl-ddiagnostig i blant a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn rhieni sy'n ceisio cael sicrwydd a chymorth yn dilyn diagnosis eu plentyn, ac mae staff yn adrodd eu rhwystredigaeth eu hunain ynghylch y cyfyngiadau o ran ystod y cymorth y gallant ei gynnig.

Rydym yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gwmpasu ail gam yr adolygiad a fydd yn cynnwys pobl awtistig a'u cynrychiolwyr. Byddwn hefyd yn gwahodd cynrychiolwyr o faes addysg, o'r trydydd sector ac o Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Rydym eisiau i'r gwaith hwn fod yn ddadansoddiad trylwyr a darparu opsiynau ar gyfer gwella gwasanaethau sy'n hygyrch i'r dyfodol. Bydd angen i'r adolygiad hwn weithio ochr yn ochr â datblygiad y Cod Ymarfer a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei gwblhau o fewn 12 mis fel y bydd y Cod Ymarfer terfynol yn cael ei gyhoeddi erbyn gwanwyn 2021.

Ochr yn ochr â hyn, mae anghenion pobl awtistig yn mynd y tu hwnt i'r blaenoriaethau y gellir eu cynnwys mewn cod. Rydym yn gweithio i gefnogi gwasanaethau sy'n helpu pobl awtistig i ddod o hyd i gyflogaeth a'i chadw. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos

gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a staff Canolfannau Gwaith i hyfforddi a chefnogi eu cynghorwyr cyflogaeth i bobl anabl. Mae llawer o enghreifftiau o arfer da, er enghraifft, yn y Gogledd ac yn y rhan fwyaf o ranbarthau, mae'r IAS yn darparu sesiynau galw heibio wythnosol mewn canolfannau gwaith lleol, ac yn y De-orllewin, mae'r cynghorydd cyflogaeth i bobl anabl yn mynychu grwpiau rhanddeiliaid awtistiaeth yr awdurdod lleol. Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud hefyd â cholegau AB lleol i gefnogi cynnydd pobl awtistig y tu hwnt i'r coleg.

Rydym yn gweithio hefyd ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd gwasanaethau cyflogaeth ledled Cymru yn ystyried anghenion pobl awtistig. Bydd ein gwasanaeth cyflogadwyedd newydd, 'Cymru'n Gweithio' yn darparu pwynt mynediad cenedlaethol i gymorth cyflogadwyedd. Darperir y gwasanaeth gan Gyrfa Cymru fel gwasanaeth cyngor ac arweiniad cenedlaethol, ac mae'n darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth sy'n hyblyg ac yn briodol i amgylchiadau unigolion.

Rydym eisiau sicrhau bod sefydliadau sector gwirfoddol yn cael cyfle i fod yn rhan o'n rhaglen i ddiwygio awtistiaeth. Ochr yn ochr â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo rhwng gwasanaethau lleol, mae sefydliadau sector gwirfoddol wedi cael cyfle i gyflwyno cais i Gynllun Grant y Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020-23. Rydym wedi derbyn sawl cais i gefnogi gwasanaethau awtistiaeth ac mae'r holl geisiadau yn cael eu hasesu. Rwy'n rhagweld y bydd canlyniadau'r asesiad ar gael erbyn diwedd mis Tachwedd.

Yn fy natganiad ysgrifenedig dyddiedig 23 Medi 2019, amlinellais mai ein blaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth a niwroddatblygiadol dros y flwyddyn i ddod yw sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Bydd y buddsoddiad rydym yn ei wneud yng ngwasanaethau niwroddatblygiadol plant yn parhau, ac rydym yn monitro'r canlyniadau yn ofalus. Yn yr un datganiad, cyhoeddais y bydd y £3 miliwn y flwyddyn sy'n ariannu'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ar hyn o bryd hyd at fis Mawrth 2021 yn dod yn gyllid rheolaidd heb leihau effaith i unrhyw newidiadau y byddwn yn ceisio eu gwneud i fodel gweithredu'r gwasanaethau hyn yn dilyn cwblhau ein hastudiaethau gwerthuso. Credaf fod y camau gweithredu hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i wella bywydau pobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr.